

Pwyllgor Diwylliant – CC-6-02 (p1)

Dyddiad: 13 Mawrth 2002

Amser: 9.00am-12.00am

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, y Cynulliad Cenedlaethol

ADOLYGIAD O'R IAITH GYMRAEG : MEWNFUDO AC ALLFUDO

Cyflwyniad

Mae'r pwyllgor wedi derbyn tystiolaeth oddi wrth nifer o sefydliadau ynghylch y rhesymau am y gostyngiad yn nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg. Mae rhai wedi olrhain y dirywiad dros y canrifoedd, tra bo eraill wedi mynd i'r afael â datblygiadau (cymharol) ddiweddar. Ni all y papur hwn wneud cyfiawnder â hwy i gyd ond mae'n canolbwyntio ar un agwedd gyffredinol – mewnfudo ac allfudo. Mae hefyd yn awgrymu rhai materion sy'n codi o hyn sy'n berthnasol i adolygiad y Pwyllgor.

Tystiolaeth

Mae ystod eang o unigolion a sefydliadau yn credu mai mewnfudiad pobl ddi-Gymraeg i Gymru ynghyd ag allfudiad pobl ifanc lleol Cymraeg eu hiaith yw'r prif reswm pam fod dirywiad yr iaith yn ei chadarnleoedd wedi cyflymu.

Roedd papur a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn nyddiau cynnar yr adolygiad gan Dr Dylan Phillips (CC-8-01 tud 4) yn awgrymu bod twristiaeth, o ran y modd y mae'n gweithredu, yn gweithio fel catalydd i annog **mewnfudiad** parhaol o bobl ddi-Gymraeg o'r tu allan i'r cadarnleoedd Cymreig. Roedd cyflwyniad Cymuned hefyd (CC-16-01 p2) yn awgrymu rhywbeth tebyg – "a hithau'n wlad eithriadol o hardd, mae Cymru'n gyrchfan naturiol i bobl sy'n dymuno ymgartrefu yng nghefn gwlad".

Beth bynnag fo'r rhesymau (ac roedd nifer o gyflwyniadau'n teimlo bod angen ymchwilio i'r maes hwn ar fyrder), dyfynnodd Dr Phillips ac eraill rai ystadegau difrifol. Ym 1961 roedd 279 o gymunedau ledled Cymru (allan o gyfanswm o 993), wedi cofnodi bod o leiaf 80% o'u trigolion yn gallu siarad Cymraeg, ardal a oedd yn gorchuddio dros 37% o Gymru. Erbyn 1991 dim ond 32 o'r cymunedau hynny oedd ar ôl (allan o gyfanswm o 908) yn cynrychioli llai na 8% o'r wlad.

Roedd ffigurau Cyfrifiad, ac astudiaethau diweddar yn Sir Gaerfyrddin ac Ynys Môn, hefyd yn dangos cydberthyniad clir rhwng canran y mewnfudwyr a chanran y siaradwyr uniaith

Saesneg. Er enghraifft roedd cyfrifiad 1991 ar gyfer Ynys Môn yn dangos bod 30% o'r boblogaeth wedi'u geni y tu allan i Gymru, tra bod 38% o'r boblogaeth yn siaradwyr uniaith Saesneg.

Cefnogwyd y gred bod mewnfudo wedi cael effaith andwyol ar yr iaith Gymraeg gan nifer o gyflwyniadau ar gyfer adroddiad yr UE yn 1996 "*Euromosaic: The Production and Reproduction of the Minority Language Groups of the EU*". Nod yr adroddiad oedd gwerthuso ffyniant gwahanol gymunedau ieithoedd lleiafrifol Ewrop a nodi'r gwahanol ffactorau a oedd yn helpu i gynnal neu i lesteirio eu parhad. Yn gyffredin i bob un o ieithoedd lleiafrifol Ewrop yr oedd y bygythiad a achoswyd gan fewnfudiad o bobl o gymunedau ieithyddol eraill. Yn ôl yr adroddiad:

"Where migration into a minority language community is pronounced, and the propensity to produce the language is limited, there will be increasing pressure to conduct community affairs through the medium of the dominant language spoken by the in-migrants."

Ynghylch **allfudo** awgrymodd Cymuned ac eraill bod ardaloedd Cymraeg eu hiaith yn wynebu argyfwng economaidd. Dywedodd Mentrau Iaith bod 75% o'r holl siaradwyr Cymraeg yn byw yn ardaloedd Amcan 1. Mae'r diffyg swyddi yn yr ardaloedd hyn yn gorfodi pobl ifanc i adael er mwyn chwilio am waith rhywle arall. Roedd Cymuned yn teimlo bod y broses ddiboblogi wedi cyflymu'n ddiweddar oherwydd methiannau tri sector cyflogaeth hollbwysig:

- Dirywiad y diwydiant amaethyddiaeth a oedd wedi prysuro dros y pum mlynedd diwethaf
- Dim llawer o gyfle i ddatblygu gyrfaoedd proffesiynol
- Mae nifer o gymunedau Cymraeg eu hiaith â diweithdra.

Awgrymwyd wrth y Pwyllgor bod yna angen dirfawr am drafodaeth ddeallus a synhwyrol ynghylch ffyrdd o reoli'r broses o allfudiad trigolion cynhenid, yn arbennig teuluoedd ifanc o gefn gwlad Cymru, a mewnfudiad pobl o'r tu allan. Yn aml mae un yn arwain at y llall. Gyda theuluoedd ifanc yn gadael y gymuned i chwilio am waith, maent yn gadael cartrefi y gall mewnfudwyr, o rannau mwy cefnog o Brydain, fforddio i dalu mwy amdanynt. Gall hyn achosi newid ieithyddol o gofio sefyllfa ieithyddol fregus Cymru wledig, ac felly, yn y pen draw, danseilio gallu'r iaith gynhenid i fodoli fel iaith fyw hyd yn oed yn ei chadarnleoedd traddodiadol.

Materion

Roedd y rhan fwyaf o'r bobl a gyfrannodd yn teimlo bod cysylltiad pwysig rhwng iaith a thiriogaeth. Er mwyn i'r iaith allu goroesi, dadleuwyd, rhaid sicrhau dyfodol y cymunedau hynny lle mae canran uchel o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg.

Os yw'r Pwyllgor yn derbyn hyn, gallai effeithio ar unrhyw bolisiau y mae'n eu cymeradwyo. Er

enghraifft, a ddylid cael mesurau gwahanol ar gyfer y cadarnleoedd neu ardaloedd eraill lle mae cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg. Mae hyn yn siwr o godi yn ystod trafodaethau yn y dyfodol ar bolisiâu unigol megis tai, cynllunio a'r economi. O safbwynt y drafodaeth hon, fodd bynnag, efallai yr hoffai'r Pwyllgor ganolbwyntio ar yr egwyddor gyffredinol.

Ysgrifenyddiaeth Y Pwyllgor Mawrth 2002